CYLCHGRAWN UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

# Yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Rhifyn Hydref 2024

## YMDDYGIAD DISGYBLION

Wrth sgwrsio ag athrawon o bob rhan o Gymru ac o bob sector, yr un yw'r neges. 'Mae angen mynd i'r afael ag ymddygiad disgyblion ac mae angen gwneud rhywbeth ar fyrder'.

Yn wyneb yr heriau cynyddol sy'n wynebu staff mewn ysgolion wrth ymdrin â phroblemau ymddygiad, cynhaliwyd cyfarfod cyd-undebol yn ystod mis Gorffennaf 2024.

Yr hyn ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfarfod, oedd y gellid crynhoi'r anghenion o dan y penawdau:

- **CEFNOGAETH**
- **CYLLID**
- **CYSONDEB**

'Mae angen mynd i'r afael ag ymddygiad disgyblion ac mae angen gwneud rhywbeth ar fyrder'.




Mwy o wybodaeth ar dudalen 2

## ONIN

O Nerth i Nerth

**ARIAN PAROD AM GYFLWYNO AELODAU NEWYDD**

**£25**

mwy o wybodaeth: O Nerth i Nerth

2 Ymddygiad disgyblion
4 10 diwrnod Dolig
8 Gair gan y Llywydd
9 Cnoi cil - Ion Thomas

# CYSONDEB

- Mae angen cysondeb wrth ddelio gyda'r broblem – o'r cynradd, i'r uwchradd a thu hwnt. Os na ddeliwn gyda'r broblem nawr, bydd y broblem yn ymledu ac yn gwaethygu.
- Mae polisïau ymddygiad a phrotocolau adrodd yn amrywio o ysgol i ysgol ac mae hyn yn arwain at anghysondeb.
- Mae angen dileu'r anghysondeb hwn.

# CYLLID

- Nid oes digon o arian i ateb y gofynion – mae'r toriadau cyllidol yn creu problemau amlwg o ran ymddygiad.
- Nid yw cyllid ysgolion yn caniatàu i ysgolion sicrhau darpariaeth ddigonol o ran canolfannau cefnogi disgyblion.
- Yn yr un modd, nid yw'r Awdurdodau yn blaenoriaethu canolfannau addysg amgen ar lefel sirol.
- Mae problemau ymddygiad yn arwain at absenoldeb salwch, ymchwiliadau, costau athrawon cyflenwi, llesiant staff ac mae'r rhain i gyd yn costio arian. Pe bai ymddygiad yn cael ei reoli'n well, gellid defnyddio'r arian yn fwy effeithiol i atal y problemau hyn rhag bod yn ddigwyddiadau cyffredin.
- Mae'n anodd cael mynediad at gyllid arbenigol ac mae costau'n uchel.
- Mae'n anodd cael mynediad at gymorth arbenigol – mae costau'n uchel. Nid yw cyllid sy'n cael ei ddyfarnu fel cyllid 'bloc' yn hytrach na chyllid i ddisgybl penodol, yn cefnogi anghenion amrywiol disgyblion/myfyrwyr. Dylai cyllid ddilyn y dysgwr a dylai gael ei dargedu at anghenion penodol.
- Nid oes digon o gyllid yn cael ei glustnodi i gefnogi disgyblion/myfyrwyr – mae oedi o ran asesiadau a diagnosis yn golygu nad yw'r gefnogaeth/y lleoliadau yn briodol. Mae hyn yn cynyddu llwyth gwaith athrawon yn enwedig y CADY (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol).
- Oherwydd problemau cyllidol, mae llai o staff mewn ysgolion ac o'r herwydd mae mwy yn disgyn ar ysgwyddau'r athrawon sydd ar ôl mewn ysgolion.

Mae hyn yn cael effaith andwyol ar gapasiti ysgolion i ddelio gydag ymddygiad heriol

# CEFNOGAETH

- Mae angen hyfforddiant digonol ar yr holl weithlu, ac nid hyfforddiant wedi ei dargedu at garfan fach o staff.
- Mae angen hyfforddiant ar staff sy'n gweithio gyda dysgwyr penodol sut i ddelio gyda materion penodol sy'n ymwneud â disgyblion dan eu gofal.
- Mae angen cefnogaeth ar arweinwyr ysgol ac ni ddylid ei gwneud hi'n anodd iddynt wahardd dysgwyr, os mai dyna sydd orau i'r ysgol a'r dysgwr. O ganlyniad, mae arweinwyr yn teimlo'n rhwystredig iawn, sut maent i ddelio ag unigolion anystywallt os nad oes darpariaeth benodol ar eu cyfer.
- Nid yw ymateb Llywodraeth Cymru yn mynd at wraidd y broblem.
- Mae angen cefnogaeth ar CADY, sy'n wynebu cynnydd sylweddol o ran llwyth gwaith oherwydd y gofynion. gweinyddol/biwrocrataidd.
- Mae angen sicrhau bod cymorth bugeiliol ar gael i ddisgyblion a bod darpariaeth briodol ar eu cyfer.
- Mae angen mesurau penodol i ymdrin â rhieni bygythiol/lletchwith.
- Mae eisiau i staff Adnoddau Dynol sy'n cefnogi athrawon gael hyfforddiant a fydd yn eu galluogi i roi'r cyngor priodol i Benaethiaid – dylai'r cyngor a roddir fod yn gyson ledled Cymru.

# EDRYCH YN ÔL AR Y HAF

EISTEDDFOD RHONDDA CYNON TAF

Diolch yn fawr i bawb a alwodd yn stondin UCAC ar faes Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Roedd hi’n braf cael cyfle i sgwrsio â hen gyfeillion, yn ogystal â dod i adnabod cyfeillion newydd.







Nid yn unig, cafwyd cyfle i groesawu pobl i’r stondin, ond bu’n gyfle i swyddogion fynychu cyfarfodydd perthnasol hwnt ac yma ar y maes ac mewn lleoliadau eraill.









Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, cynhaliwyd noson i gofio am un o gyn-swyddogion UCAC, Gareth Miles. Ymysg y teyrngedau a dalwyd iddo, nodwyd ei waith caled o fewn undebau llafur, yn arbennig o fewn UCAC.

Soniwyd am ei waith caled fel trefnydd yn sicrhau fod yr elfen wleidyddol yn dod yn bwysicach o fewn yr Undeb a bod mwy o sylw i waith rhyng-genedlaethol.





# UNDEBAU, GWAITH TEG A'R GYMRAEG


**TUC CYMRU**

Fel rhan o ddathliadau hanner can mlwyddiant TUC Cymru, cafwyd sgwrs hynod ddifyr am undebau a'u defnydd o'r Gymraeg. Diddorol oedd clywed am undebaeth y cymoedd gan Meic Birstwhistle yn Nhipi'r Llywodraeth.




Mae'r Gymraeg wedi bod yn ganolog i hanes y frwydr am hawliau gweithwyr fel iaith byw, iaith gwaith, iaith trafod a negodi ac iaith y llinell biced.
Bu UCAC ar flaen y gad, wrth gwrs, ond mae'n rhaid sicrhau fod pob gweithiwr ac undebwr yn derbyn ei hawl.

# YMGYRCH NADOLIG 2024




Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi dros y wythnosau nesaf.

Cadwch eich llygaid ar agor!



# EDRYCH YMLAEN .....CYNHADLEDD 2025

Yn ddiweddar, rhoddwyd cyfle i aelodau UCAC roi eu barn ynghylch amseriad a chynnwys y Gynhadledd Flynyddol, yn ogystal ag ynghylch y Cynadleddau Sirol. Rydym yn awyddus i weld ein haelodau yn cymryd rhan weithredol yn nigwyddiadau'r Undeb.

O'r ymatebion a gafwyd, ymddengys mai Tymor y Gwanwyn yw'r amser gorau i gynnal Y Gynhadledd. Mae hi'n rhy gynnar i gynnal y Gynhadledd yn Nhymor yr Hydref ac mae Tymor yr Haf yn golygu bod athrawon ynghlwm wrth weithgareddau amrywiol – teithiau ysgol, mabolgampau, arholiadau allanol ayb.

## Y GYNHADLEDD FLYNYDDOL

**Fuoch chi erioed yng Nghynhadledd UCAC?**

**Naddo? BETH AM DDOD ELENI?**

### PAM DDYLWN I DDOD?

Mae'n lle croesawgar a chyfeillgar - pwy bynnag ydych chi, beth bynnag yw eich swydd... mae croeso cynnes i chi

### BETH SY'N DIGWYDD YNO?

- Mae'n gyfle i gymdeithasu gyda phobl eraill, fel chi, sydd yn gweithio o ddydd i ddydd ym myd addysg
- Mae'n gyfle i wrando ar brofiadau pobl eraill ac yn gyfle i ystyried a chynnig sut i wella pethau yn y byd addysg
- Gallwch ddod i drafod neu i wrando ar bobl eraill yn trafod – chi sydd i benderfynu a ydych am gyfrannu i'r drafodaeth

### YDYCH CHI'N TEIMLO NAD OES NEB YN DEALL, NAD OES NEB YN GWRANDO?

Y Gynhadledd yw'r lle i rannu a chyfleu eich pryderon am y byd addysg yng Nghymru

### BETH SY'N DIGWYDD YNO?

Sesiynau anffurfiol, sesiynau trafod, siaradwyr gwadd.

**Dewch eleni....mae'n debyg y byddwch yn ôl y flwyddyn nesaf!**
**Mae'r rhan fwyaf sy'n dod unwaith yn dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn!**

Dewch, mwynhewch a chofiwch -
Mewn undeb mae nerth.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Yn ystod cyfarfod diweddar o'r Cyngor Cenedlaethol, penderfynwyd clustnodi Mawrth 28ain-29ain ar gyfer Cynhadledd 2025. Rydym wedi dechrau gwneud y trefniadau angenrheidiol a daw mwy o fanylion cyn bo hir.

Cofiwch, felly, nodi'r dyddiadau yn eich dyddiadur, a gobeithiwn yn fawr y byddwch yn gallu ymuno â ni yn ein cynhadledd ar Fawrth 28ain-29ain. Daw mwy o wybodaeth cyn hir!

Cynhadledd Flynyddol UCAC

**28-29 Mawrth 2025**

Lleoliad i'w gadarnhau

# DOD I NABOD CYNRYCHIOLYDD

Mae bod yn gynrychiolydd UCAC mewn ysgol neu sefydliad yn waith pwysig a gwerthfawr. Mae'n ffordd o helpu eich cydweithwyr ac yn ffordd o fod yn ddolen gyswllt rhwng ysgolion a swyddogion UCAC.

Ydych chi'n gwybod pwy yw'r cynrychiolydd yn eich ysgol? Os nad oes cynrychiolydd yn eich ysgol, beth am wirfoddoli i wneud y gwaith. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â ni drwy e-bostio ucac@ucac.cymru

**Enw**: Manon Wyn Jones

**Ysgol**: Ysgol Gymunedol Rhydypennau

**Pynciau rydych yn eu dysgu neu gyfrifoldebau o fewn yr ysgol:**

Fel athrawes Dysgu Sylfaen rwy'n dysgu'r holl feysydd dysgu a phrofiad gyda chyfrifoldebau dros adran y Dysgu Sylfaen ac am Lythrennedd a Lles ar draws yr ysgol.

**Hoff ddiddordebau:**

Gwylio rygbi (Cymru a'r Scarlets), siopa dillad a chymdeithasu gyda ffrindiau.

**Hoff le yng Nghymru a pham:**

Mae bro fy mebyd yn bwysig iawn i mi felly mae'n rhaid i mi ddweud Dyffryn Dyfi.

**Hoff le bwyd:**

Bwyty Gwen neu dafarn y White Horse, Machynlleth neu Sea Breeze, Aberdyfi

**Hoff bryd:**

Dw i'n hapus iawn i mhlesio pan mae'n dod i fwyd, ond mae unrhyw fwyd Tseiniaidd neu Lasagne y White Horse yn uchel ar y rhestr.

**Byw neu farw – pwy fuasech chi'n hoffi cwrdd i gael sgwrs dros baned?**

Fel cefnogwr brwd o'r Scarlets a thîm rygbi Cymru, mae'n rhaid i fi ddweud unrhyw un ohonyn nhw! Byddai sgwrs gydag Alun Wyn Jones neu Ken Owens am deithiau Cymru a'r Llewod yn ddiddorol dw i'n siwr.



**Perfformiad gorau i chi ei weld:**

O ran cerddoriaeth, cyngherddau'r Spice Girls (fel plentyn y 90au dw i wedi'u gweld deirgwaith!), ond o ran rygbi, Cymru'n curo Lloegr (a'r bencampwriaeth) o 30-3 yn y Chwe Gwlad yn 2013. Roedd y gêm yn mynd yn fwy anghredadwy wrth iddi fynd ymlaen!

**Pe byddech yn cael newid un peth am y system addysg yng Nghymru, beth fyddai hynny?**

Bod y profion cenedlaethol yn mynd yn ôl ar bapur yn hytrach nag ar-lein!

**Pam rydych chi'n mwynhau bod yn gynrychiolydd UCAC yn yr ysgol?**

Dw i'n ystyried fy hun yn berson trefnus a chyfeillgar ac felly dw i'n mwynhau helpu eraill pryd bynnag sy'n bosib.

# EDRYCH YMLAEN AT NEWIDIADAU

Heb os, mae dyheadau Bil y Gymraeg ac Addysg yn rhai i'w croesawu.  Mae UCAC yn croesawu unrhyw strategaeth i hybu a hwyluso a sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. Rydym o'r farn, felly, fod gosod targed cynnydd penodol, meintiol mewn deddfwriaeth yn rhywbeth i'w ganmol. Cytunwn hefyd fod gan addysg ran bwysig i'w chwarae wrth anelu at y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

O'r herwydd, teimlwn yn gryf fod angen sicrhau buddsoddiad sylweddol ym maes addysg, er mwyn gallu gwireddu'r dyheadau. Mae'r uchelgais a roddir o gael pob disgybl diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol yn un clodwiw ac uchelgeisiol. Fodd bynnag, rhaid cadw mewn cof fod angen cyllid, amser ac adnoddau digonol er mwyn gwireddu'r dyhead.

Mae gennym bryder hefyd ynghylch y categorïau. A yw'r modd y mae ysgolion yn cael eu categoreiddio yn mynd i wanhau'r Gymraeg yn hytrach na'i chryfhau?   Teimlwn fod angen eglurder i ba gategori y mae ysgol yn perthyn, gan sicrhau bod y disgwyliadau o ran y Gymraeg yn gweddu i gyd-destun yr ysgol.

Cafodd UCAC gyfle i anfon tystiolaeth ysgrifenedig ac i gyflwyno tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Gellir darllen ymateb ysgrifenedig UCAC drwy ddilyn y ddolen ganlynol:  Ymateb UCAC

Gellir cael syniad o ymatebion sefydliadau yng Nghymru i'r Bil drwy fynd i wefan Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a dilyn y cyfarfodydd ym mis Medi a mis Hydref.  Mae cyfraniad UCAC i'r broses i'w weld yng nghyfarfod 2 Hydref, 2024.

https://www.senedd.tv/Meeting/Archive/a126bfc3-75e9-4989-a99e-727f08d0adc0?autostart=True (1 awr a 10 munud i mewn i'r recordiad)

https//cofnod.senedd.cymru/Committee/14117 (sesiwn dystiolaeth 7, paragraff 136 ymlaen)



# CYNADLEDDAU SIR

Mae cynadleddau sirol yn her, gyda phellter daearyddol ac amser yn ffactorau sy'n rhwystro aelodau rhag bod yn bresennol. Byddwn yn ysytried sut y gallwn ei gwneud hi'n haws i aelodau fynychu'r cyfarfodydd hyn. Rydym yn ymwybodol o'r heriau, ond anogwn chwi i geisio bod yn bresennol os gallwch, er mwyn i ni gael clywed lleisiau ein haelodau.

# GAIR GAN Y LLYWYDD

- Ceri Dafydd Evans



Annwyl aelodau,

Rwyf bellach wedi cychwyn ar fy mlwyddyn fel Llywydd yr Undeb, a diolch i chi oll am yr anrhydedd a'r fraint o gael gwneud hynny. Mae wedi bod yn gychwyn prysur, gyda nifer o gyfarfodydd ar draws Cymru gyfan! Rwyf wedi teithio i nifer o leoliadau i gyfarfod ag Athrawon Newydd Gymhwyso yn ogystal â myfyrwyr sydd am fod yn athrawon, naill ai drwy gwrs TAR, neu drwy gradd BAddysg.
Braf oedd gweld nifer o gyn-ddisgyblion yn mentro i'r maes dysgu, gan wybod y boddhad mae hynny wedi rhoi i mi dros yn agos at chwarter canrif bellach. Wedi dweud hynny, nid swydd heb ei heriau yw dysgu fel y gwyddoch. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddaf yn medru bod o gymorth i chi yn ystod y flwyddyn yma. Fel rhan o hyn rwy'n gobeithio medru cyfarfod ag athrawon mewn ystod o ysgolion ar draws Cymru a gwrando ar yr hyn sydd yn eich pryderu a bwydo hynny nôl i'r mannau priodol. Rwyf eisoes wedi cyfarfod ag ambell i gyngor a gweithgor o lywodraeth Cymru, a braf fyddai cael defnyddio'ch geiriau chi wrth drafod â hwythau. Bwriad ein proffesiwn ni yw i roi sylfaen cadarn i blant cael datblygu; ac rydym ni, fel corff o bobl, yn gwneud hynny bob cyfle cawn ni. Fy mhrif bryder am y byd addysg yw'r pwysau gwaith cynyddol, ac mae'n peri i mi ofyn y cwestiwn ydy'r holl waith yma yn cael budd ar ddatblygiad plant?

Hoffwn gael syniadau oddi wrth athrawon ynglŷn a sut gallwn leihau'r llwyth gwaith yma, er mwyn ei fwydo nôl i gynghorau Cymru a Llywodraeth Cymru. Os hoffech rannu unrhyw syniadau gyda mi byddaf wrth fy modd yn clywed oddi wrthych. Cewch gysylltu â mi drwy'r e-bost llywydd@ucac.cymru am unrhyw fater, a byddaf yn gwneud fy ngorau glas i gynorthwyo pob un ohonoch.
Cofiwch, Mewn Undeb mae Nerth.

# CNOI CIL AR DDIWEDD GYRFA

Ion Thomas

*Ym mis Medi eleni, dechreuodd Ion Thomas ar ei ymddeoliad, wedi iddo dreulio degawdau yn athro Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw.Yma, mae'n cael cyfle i fyfyrio a chnoi cil wrth iddo edrych yn ôl ar ei yrfa, yn ogystal ag ystyried ei farn am ddyfodol byd addysg yng Nghymru.*

Llwyddiant addysg y de ddwyrain yw creu Cymry newydd a thrwy hynny newid rhywfaint ar hanes ein hiaith a thrywydd ein gwlad. Mae'r llun isod yn cyfleu'n llwyr imi yr ennill tir sydd wedi digwydd mewn cwta pymtheng mlynedd ar hugain o addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr hen Went.



Dyma griw o gyn ddisgyblion ysgol Gwynllyw, ysgol a agorodd ei drysau yn 1988 a hwythau bellach yn gyflogedig gan AwdurdodAddysg Tor-faen. Mae'r diolch i fenter, penderfyniad a gweledigaeth criw o bobl yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf. Lle roedd unedau, ceir yn awr ysgolion Cynradd a dwy ysgol Gyfun. Fyddai'r twf yma ddim wedi digwydd oni bai am weledigaeth a brwdfrydedd.

Fodd bynnag, wrth fwrw golwg dros yr ysgwydd fel petae caiff un ei blagio gan gwestiynau ac amheuon. Cwestiwn sy'n dwys bigo yw pam nad yw'r math yma o gynnydd i'w weld mewn ardaloedd mwy Cymreig lle mae canran uchel o ddisgyblion yn medru'r Gymraeg ond yn dilyn cyrsiau drwy'r Saeseng? A oes yna lusgo traed gan benaethiaid ac athrawon sy'n fwy bodlon o ddilyn cyrsiau drwy'r Saesneg oherwydd bydd yn llai o drafferth ac yn llai o her?

Ac wele gwestiynau eraill sy'n fy mhlagio? Be ydy gwir bwrpas corlannu'r holl bobl ieuanc yn eu blynyddoedd ffurfiannol am bum mlynedd a mwy gyda'i gilydd yn y sector uwchradd?

Pa mor effeithiol a doeth yw corlannu 32 a mwy o bobl ieuanc yn yr un stafell am bum awr? Pa mor garedig yw atgoffa nifer o bobl ieuanc yn ddyddiol wythnosol a thymhorol nad ydynt yn disgleirio'n academaidd, ac na fyddant yn serennu yn yr arholiadau TGAU ond eto i gyd bod rhaid iddynt barhau i gerdded y llwybr hwnnw? Ai rôl ysgol yw gwarchod plant neu eu haddysgu a datblygu eu galluoedd academaidd? Ai'r flaenoriaeth yw sicrhau eu bod yn cryfhau'n emosiynol, yn ysbrydol ac yn foesol? Neu ai lloches i'r plant yw ysgol er mwyn i'r rhieni fedru mynd i'w gwaith?

Un peth sy'n sicr, mae yna lawer o heriau yn wynebu addysg Cymru. Rhaid cofio er yr holl 'dincran' dros y blynyddoedd, yr holl syniadau 'blaengar'a'r ail wampio, rydym ar waelod stadegau a thŵr Pisa! Ai felly y mae am fod gyda llywodraeth sy'n gyfrifol am addysg y wlad hon yn parhau i ail adrodd yr un hen system a pharhau â'r 'tincran' hwnnw? Onid gwallgofrwydd yw ail adrodd yr un broses gan obeithio cael canlyniad gwahanol rhywbryd?

# ASESU

Nid yw plant yn dwp. Maent yn llwyr ymwybodol pwy sy'n medru ysgrifennu Cymraeg a Saeseng slic. Pwy sy'n medru darllen fel rhuban a phwy yw'r criw sy'n medru chwalu'r syms! Gallem ofyn i ddosbarth drefnu eu hunain i sefyll mewn rhes teilyngdod a byddent yn gywir. Gallem fel nifer o athrawon osod llyfrau'r dosbarth mewn trefn cyn marcio'r gwaith a byddai'r canlyniadau terfynol yn go agos ati. Maen nhw y disgyblion a ni'r athrawon yn deall. Yn gwybod pwy sy'n ddiog, pwy sy ddim yn trafferthu, a phwy sy'n medru torchi llewys a phwy sy'n hedfan heb ymdrech.

Fel y gwelaf i bethau, chwalwyd yr union arholiad wnes i sefyll yn un ar ddeg mlwydd oed sef yr enwog '11+' oherwydd ei fod, yn ôl llawer yn gwbl anheg, yn creithio ac nad oedd disgyblion yn medru cael yr un cyfleoedd. Yn sicr roedd angen diwygio'r hen drefn honno! Fodd bynnag, olwyn sy'n troi yw byd addysg, ac mae'r arholiad hwnnw wedi hen ail ffurfio a'i ail ddyfeisio'n llechwraidd mewn i gynlluniau astudio blynyddoedd uwchradd yr ysgolion cyfun. Dysgais yn go fuan ar y daith, cyhyd â bod canlynidadau TGAU ysgolion yn rhai derbyniol ysytrir yr ysgol yn un llwyddiannus. Dim gwahaniaeth os oedd canran uchel o'r disgyblion yn cael gwersi preifat ac athrawon dyfeisgar a phell weledol yn medru cynnig cymorth gyda sgaffaldiau a drafftio, a thra bo tasgau dan amodau yn fan llwyd na fedrai gael ei blismona, roedd cyfle i sicrhau llwyddiant i bawb a fynnai lwyddo!

Nid yw'n syndod bod y sir y bûm yn dysgu ynddi, sef Tor-faen wedi cael nifer o Gyfarwyddwyr Addysg dros y 36 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r canlyniadau, y cefndir economaidd, y clientel yn mynd i gynnig taith rwydd i'r person sydd â'i ben ar y bloc! Wedi'r cyfan dyma sir lle roedd nifer o ysgolion uwchradd mewn mesurau arbennig ar yr un pryd! Felly a ydy'r system yn gweithio ac yn addas effeithiol?

# PA NEWIDIADAU A LLWYDDIANNAU?

Daeth y cyfarwyddiadau yn gawod o orchmynion dros y ddegawd a mwy ddiwethaf.
Peidiwch â chodi eich llais na gweiddi ar neb. Peidiwch â gofyn i ddisgyblion godi eu llaw wrth holi am atebion. Cofiwch gofrestru a chofnodi ar 'Class Charts' y da a'r hyn sy'n achosi consyrn ar ddiwedd gwers. Cofier cloi gwers gyda thasg adborth.
Bu'n her i un a hoffai ymateb i deimladau disgyblion a gerddai mewn i'r ystafell ddosbarth. Bellach roedd angen dilyn y drefn, y dasg gloch, y pwynt pŵer a'r pentwr o daflenni a'r mân weithgareddau i gadw pawb ar dasg. Yr her oedd cyflwyno jig-sô o wers drwy ddilyn pwynt pŵer penigamp a symudai o dasg fer i dasg fer.
Un o uchwfbwyntiau fy ngyrfa oedd llwyddo i oroesi'r cyfnod clo. Gydag ymdrech a help, dod i  feistroli dysgu ar lein, recordio fy hun a chynllunio sleid ar ôl sleid o ddeunyddiau derbyniol.
Rhaid dweud mae sgiliau'r addysgu, y technegau slic, y defnydd o bwynt pŵer a thechnoleg, y syniadau niferus sydd ar gael ar sut i gyflwyno ac o weithio mewn grŵp a pharau ac ati wedi datblygu'n rhyfeddol gan lawer. Heb os roeddwn i'n well athro o dipyn ar ddiwedd fy ngyrfa nag oeddwn ar y dechrau. Da oedd cael syniadaeth a thechnegau 'Walkthrus' ar waith. Rhaid canmol yr athroniaeth o rannu syniadau boed yn driawdau rhyng bynciol neu o fewn adran. Fodd bynnag, ni ŵyr neb am y stamina sydd ei angen ar yr athro heb sôn am bennaeth adran neu arweinydd pwnc.
Hyn a hyn o beli fedrith un eu jyglo ar yr un pryd, ac mae bod yn addysgwr, gwarchodwr, aseswr, disgyblwr, seicolegydd, difyrrwr, cofnodwr, addurnwr stafell, meistr y pwynt pŵer a llawer mwy yn gur pen!
Un peth a'm blinodd oedd gweld y bri cynyddol a roddwyd i'r athrawon a ddilynai yrfa fugeiliol tra bod yr addysgwyr a'r arweinwyr pwnc yn gorfod sefyll yn y corneli a chymryd rôl eilradd. Fe'm gadawyd droeon yn holi be ydy swyddogaeth ysgol?

# A'R DYFODOL?

Rhagwelaf ddiwedd y model addysgol fel ag y mae. Y mae yna ddiwygio a newid mawr ar y gweill ac mae'r clo a datblygiad technoleg, y dysgu ar lein wedi canu cloch cychywyn y bennod olaf neu'r chwyldro. Does dim angen safleoedd mawr. Bydd yr hen fap yn araf chwalu ac un newydd yn dechrau egino. Fydd yna ddim sefydliadau ac adeiladau mawr gyda'r holl fysiau yn teithio i un safle penodol. Mae gennym y dechnoleg i fedru addysgu o adre neu o ganolfannau llawer llai. Rhagwelaf ganolfannau cymunedol addysgol yn datblygu. Yno bydd yr arholi a'r cyfan ar lein, ar sgrin fach neu fawr gyda hyrwyddwyr addysgol yno yn gwarchod, llywio a threfnu.
Mae'r niferoedd sy'n tynnu eu plant allan o'r ysgolion am wahanol resymau ar gynnydd.Mae'r holl drafod a fu am bedwar tymor, y newid yn y cyrsiau, yr ail wampio cyrsiau ac asesu – y cyfan yn dangos diffyg ymddiriedaeth a chyfaddefiad nad yw pethau'n gweithio ac yn ffit i bwrpas.

# I GRYNHOI

Mae hi wedi bod yn fraint cael bod yn rhan o'r daith addysgu a chael cyflwyno Cymru a'r Gymraeg i'r ifanc. Y pleser mwyaf oedd gweld pobl ieuanc yn ymgolli mewn gwers, yn ymroi ac yn mwynhau. Efallai bod cyflwyno llenyddiaeth, a chael cynnig stori a phrofiad personol yn rhoi i'r athro Cymraeg mwy o gyfle nag ambell athro pwnc neu faes arall. Yn sicr mae gweld yr ifanc yn mwynhau, yn medru anghofio y caethiwed dyddiol, blynyddol maent ynddo yn eli i'r galon.

Cof da gennyf o'm hoff athrawon pan oeddwn i'n yr ysgol. Yr athrawes Saesneg soffistigedig ddramatig a daflai ei hun yn ddigyfaddawd wrth werthfawrogi llenyddiaeth. Yr athro Cymraeg a wibiai gan milltir yr awr yn gyffro byw gan saethu cwestiynau fel bwledi o wn gan droi'r bwrdd du'n ganfas i'w ddoniau arlunio wrth drafod cerdd. Yna'r wraig fusgrell garismataidd honno, Norah Isaac a dreuliai sawl noson ar yr aelwyd ym Mro-dirion fy mebyd dros y blynyddoedd ffurfiannol. Gwraig a fedrai dynnu dagrau a chynnau tan yr un pryd.

Roeddent oll yn tasgu o argyhoeddiad a brwdfrydedd, gonestrwydd a diffunatrwydd. Eu cenadwri nhw ddaeth yn alwedigaeth i mi. Dyma oedd y cyffur, y tanwydd a deimlwn oedd yn gwbl angenrheidiol i oroesi ac i fod yn effeithiol wrth addysgu. Mewn gair brwdfrydedd dros y pwnc – dros y gwaith. Beth bynnag, derbyniais y baton gan eraill ac fe geisiais redeg fy nghymal.

Boed i lywodraeth Cymru yn awr wynebu'r her o addysgu'r cenedlaethau nesa gydag egni, creadigrwydd a gweledigaeth a fydd yn gwella cyflwr ein heconomi a lles ein cenedl. Rhaid meddwl o'r newydd gan ofyn cwestiynau pwysig a chaled megis be ydy pwrpas corlannu'r holl bobl ieuanc yn eu blynyddoedd ffurfiannol yn y sector uwchradd? Ai blynyddoedd coll ydynt neu adeiladol? Beth yw ffrwyth a phwrpas yr holl asesu ac arholi? Pa mor hapus a medrus eu sgiliau yw'n hieuenctid ar ôl yr holl addysgu?

Gadewch i ni ddychwelyd at y bwrdd du!

## YDYCH CHI'N AWYDDUS I WELLA EICH CYMRAEG?
## YDYCH CHI'N ADNABOD RHYWUN SY'N AWYDDUS I WELLA EI GYMRAEG/EI CHYMRAEG?

### CWRS NEWYDD: CYMRAEG CYWRAIN

Mae Cymraeg Cywrain yn gwrs hunan-astudio ar-lein newydd ar lefel Gloywi. Caiff defnyddwyr eu tywys drwy gyfres o unedau sy'n rhoi sylw i agweddau penodol o Gymraeg Proffesiynol. Mae wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer y Gweithlu Addysg, ac yn cynnwys elfennau gramadegol oddi fewn i gyd-destun ffurfiau megis cofnodion, adroddiadau, a llythyrau, gan roi sylw hefyd i wallau cyffredin.

**Dyma ddolen i gofrestru a dilyn y cwrs.**




# BWRDD GOLYGYDDOL

**Llywydd Cenedlaethol:** Ceri Evans
**Is-Lywydd:** Sara Edwards
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones
**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies
**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies
**Dylunydd:** Nia Evans

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU
Ffôn: 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

# DECHRAU AR EICH GYRFA




Os ydych chi ar ddechrau eich gyrfa, go brin eich bod yn poeni rhyw lawer eto am eich pensiwn. Mae ymddeol yn ymddangos yn rhywbeth pell i ffwrdd ar hyn o bryd, ond mae hi'n bwysig eich bod yn dechrau meddwl a pharatoi ac edrych ymlaen. Dyma rai pethau y dylech eu gwneud yn awr, er mwyn paratoi yn ddoeth ar gyfer y dyfodol.

Beth ddylech chi ei wneud ar ddechrau eich gyrfa?

- Gwirio eich slip cyflog i wneud yn siŵr bod arian wedi ei dynnu allan ar gyfer eich pensiwn
- Cofrestru ar-lein gyda Teachers' Pensions https://www.teacherspensions.co.uk/

Mae'r broses hon yn broses hawdd ond yn broses bwysig.

- Ar ôl cofrestru, dylech wirio eich cyfrif ar-lein yn rheolaidd. Byddwch yn derbyn negeseuon pwysig yn y cyfrif hwn a byddwch hefyd yn gallu gwirio eich cyfraniadau
- Mae rhai penderfyniadau y bydd gofyn i chi eu gwneud o fewn 6 mis neu o fewn blwyddyn i ddechrau dysgu. Mae'n bwysig, felly, eich bod yn cofrestru mewn da bryd.

Peidiwch â bod ofn y broses hon a pheidiwch â diystyru pa mor bwysig yw eich pensiwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch fod eich Swyddog Maes ar gael i ateb cwestiynau. Nid oes y fath beth â chwestiwn 'twp'!